Tribiwnlys Prisio Cymru
Valuation Tribunal for Wales

# Cynllun Gweithredol 2025/26

Carolyn Dawson (PSG)

# Cynnwys

1. Datganiad o ddiben

2. Amcanion Strategol

3. Nodau 2025/26

**Atodiadau:**

A Amcanion a mesurau manwl i werthuso Amcanion Strategol [KPI’s]
B Cofrestr Risg Strategol
C Strwythur Trefniadaethol

## 1. Datganiad o Ddiben

### 1.1. Rôl y Tribiwnlys a'i Wasanaethau

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn pennu apelau trethiant lleol a godir gan ddinasyddion a busnesau Cymru. Gellir cyflwyno apelau ynglŷn â:

- Prisio eiddo at ddibenion y dreth gyngor ac ardrethi annomestig
- Dilysrwydd cynnig i newid prisiad eiddo
- Cosbau am beidio â darparu gwybodaeth am eiddo
- Statws cwblhau eiddo newydd at ddibenion bilio
- Atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor
- Rhychwant atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, gan gynnwys disgowntiau, eithriadau, a gostyngiadau
- Prisio eiddo at ddibenion ardrethi draenio

Caiff Awdurdodau Bilio wneud cais i TPC hefyd am gymeradwyaeth i archwilio hereditament.

Mae TPC yn darparu ei wasanaethau yn rhad ac am ddim gan nad oes ganddo rym dyfarnu costau.

Yn hanesyddol, byddai Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn cyfeirio apelau prisio eiddo heb eu datrys yn awtomatig at y Tribiwnlys. Fodd bynnag, ers 1 Ebrill, 2023, rhaid i apelau ardrethu gael eu cofrestru'n uniongyrchol gyda'r Tribiwnlys gan y partïon tramgwyddedig. Mae trosglwyddo awtomatig ond yn parhau am apelau treth gyngor a benderfynir gan y VOA. Rhaid i apelau yn erbyn penderfyniadau treth gyngor a wnaed gan awdurdodau bilio gael eu cofrestru'n uniongyrchol gan yr apelydd. Hefyd, mae gan awdurdodau bilio bwerau codi cosb yn debyg i'r VOA, sy'n caniatáu i apelau yn erbyn cosbau o'r fath gael eu cyfeirio i'r Tribiwnlys. Ar ben hynny, gellir apelio anghydfodau am hysbysiadau cwblhau a gyflwynir gan awdurdodau bilio ar gyfer eiddo newydd neu heb ei restru yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys.

### 1.2. Pwrpas y Tribiwnlys a'i Wasanaethau

Nod TPC yw rhoi asesiad annibynnol o anghydfodau trethiant lleol, gan gynnig y llwybr cyntaf ar gyfer unioni annibynnol i ddinasyddion a busnesau. Mae'r fforwm hygyrch hwn yn caniatáu i unigolion gyflwyno eu hachosion heb reolau llys ffurfiol. Fel arfer caiff achosion eu clywed gan banel tri pherson o wirfoddolwyr di-dâl, wedi'u hyfforddi, gyda chymorth clerc proffesiynol. Caiff y rhan fwyaf o anghydfodau eu datrys ar y lefel hon, gyda grym cyfreithiol i benderfyniadau'r tribiwnlys. Ychydig o achosion yn unig sy'n mynd ymlaen i'r uwch lysoedd.

Amcan y Tribiwnlys yw darparu mynediad hygyrch, cost isel, ac anffurfiol i gyfiawnder i ddinasyddion a busnesau Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i ddarparu'n effeithiol ers i Ddeddf Llywodraeth Leol 1948 gyflwyno Llysoedd Prisio Lleol.

### 1.3. Yr Amgylchedd Gweithredu a Llywodraethiant

### 1.3.1. Perthynas â Llywodraeth Cymru a'r Cytundeb Fframwaith

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw TPC, a grëwyd gan statud ac a gyllidir gan arian cyhoeddus. Mae ganddo gytundeb fframwaith â Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu cyfrifoldebau ar y cyd am lywodraethiant, doethineb ariannol, ac atebolrwydd i Weinidogion Cymru. Mae'r ddogfen fframwaith yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a disgwylir iddi gael ei chwblhau o fewn y flwyddyn weithredol.

### 1.3.2. Trefniadau Cyllido

Pennir cyllid y Tribiwnlys yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru, gan ystyried baich gwaith, ymrwymiadau ariannol, a chynlluniau i'r dyfodol. Telir y cyllid yn chwarterol, gyda Llywodraeth Cymru'n monitro gwariant yn fisol. Cynhwysir adroddiad am wariant yn adroddiad blynyddol y Tribiwnlys. Mae'r Prif Weithredwr, sy wedi'i ddynodi yn ddeiliad cyllideb, yn atebol yn bersonol o dan weithdrefnau cyfrifyddu'r llywodraeth. Wrth symud ymlaen i 2025/26 mae TPC mewn lle da i gwrdd â'i holl rwymedigaethau a thargedau ar ôl sicrhau cyllideb sylfaenol newydd o £1.925 miliwn.

### 1.3.3. Archwilio a Rheoli Risg

Gall y Tribiwnlys drefnu archwiliadau mewnol trwy gyflogi contractwyr neu ddibynnu ar Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Cynhelir archwiliadau allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ymdrinnir â rheoli risg o ddydd i ddydd gan y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gweithredol, gyda chofrestr risgiau sy'n cael ei chynnal a'i chraffu gan y Cyngor Llywodraethu.

## 1.4. Strwythur Trefniadaethol ac Aelodaeth

Mae TPC yn endid cyfreithiol statudol gydag aelodaeth sy'n ethol llywydd a thri chynrychiolydd cenedlaethol i'r Cyngor Llywodraethu. Mae'r Cyngor yn cyfarwyddo'r Tribiwnlys ar ran yr aelodaeth. Caiff Gweinidogion Llywodraeth Cymru benodi hyd at dri aelod i'r Cyngor.

Mae'r Cyngor Llywodraethu yn gyfrifol am:

- Goruchwylio'r Tribiwnlys yn gyffredinol a sut mae'n darparu ei wasanaeth.
- Cyfeiriad strategol.
- Sicrhau cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol corfforaethol y Tribiwnlys (gan gynnwys iechyd a diogelwch, diogelu data, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a safonau'r Iaith Gymraeg) ac â'r ddogfen Fframwaith a wnaed gan Weinidogion Cymru.
- Llunio polisi.
- Penodi prif weithredwr.
- Pennu'r strwythur staffio a lefelau aelodaeth.

Ar hyn o bryd, nid oes Penodai Llywodraeth Cymru sy'n ddeiliad swydd. Ymddiswyddodd Mr Russell Lawson, cynrychiolydd blaenorol Llywodraeth Cymru, o'i swydd ym mis Rhagfyr 2023, a hyd yn hyn ni chafwyd olynydd iddo. Y gobaith yw llenwi'r swydd hon o fewn y flwyddyn weithredol nesaf oherwydd gallai'r diffyg pedwerydd cynrychiolydd yma achosi problemau gweithredol wrth symud ymlaen.

### 1.5. Darpariaeth a safonau'r iaith Gymraeg

Mae'r Tribiwnlys yn glynu wrth safonau'r Iaith Gymraeg ac yn cael ei oruchwylio gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae tri deg wyth y cant o'r staff a thri deg y cant o'r aelodaeth yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Ymhlith y staff sy'n weddill, mae ystod o hyfedredd yn y Gymraeg.

Mae'r Tribiwnlys yn hybu datblygu sgiliau Cymraeg yn frwd ac mae wedi'i ymrwymo i gyllido pob cwrs Cymraeg perthnasol y mae'r staff yn dymuno eu dilyn.

Pwysleisir sgiliau iaith ym mhob proses recriwtio am swyddi a chefnogir hyn gan dabl lefelau wedi'i ddatblygu a gynhwysir ym mhob pecyn recriwtio. Ar hyn o bryd, mae'r galw am wrandawiadau apêl Cymraeg yn isel, gyda llai na 18 o'r 41 tribiwnlys a alwyd ar gyfer gwrandawiadau Prisio Treth Gyngor ag apelau Cymraeg wedi'u rhestru wrthynt. Fodd bynnag, mae'r Tribiwnlys yn barod i reoli cynnydd sylweddol yn y galw gyda'r adnoddau presennol os bydd yn codi.

## 2. Amcanion Strategol

a. **Cyfiawnder i Bobl Cymru**
    - Darparu system apelau effeithlon, annibynnol, deg, hygyrch, ac arbenigol ar gyfer materion yn ymwneud â threthiant lleol.
    - Gwneud penderfyniadau ansawdd uchel, amserol, a chyfreithlon.

b. **Trefniadaeth Effeithlon**
    - Strwythuro a threfnu'r Tribiwnlys mewn modd costeffeithiol i gwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau.
    - Ymaddasu, moderneiddio, a gwella mewn ymateb i ofynion diwylliannol a deddfwriaethol cyfnewidiol.

c. **Gwerth am Arian**
    - Cwrdd â gofynion cyllidebol Gweinidogion Cymru a rheoli adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol yn unol â fframwaith "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru".

ch. **Gwella ac Arloesi'r System Apelio**
    - Rhoi barn arbenigol ar y system apelio i gyrff sy'n gwneud polisi a rhanddeiliaid eraill.

## 3. Nodau 2025/26

Nod TPC yw cyflawni ei amcanion strategol yn y flwyddyn i ddod trwy sicrhau bod yr holl nodau canlynol yn cael eu diwallu a'u monitro, cyn belled ag y bo'n ymarferol yn rhesymol, yn unol â KPIs y corff fel y'u gosodir yn Atodiad [B].

### Cyfiawnder i Bobl Cymru

- Trefnu rhwng 90 a 120 o gyfarfodydd tribiwnlys dros y flwyddyn weithredol.
- Rhestru'r apelau sy'n weddill o Restr Ardrethu 2010/2017 (gan gynnwys achosion Uned Arbenigol).
- Rhestru unrhyw apelau Rhestr Ardrethu 2023 o fewn chwe mis i'w derbyn.
- Apelau ANN yn erbyn Rhestr Ardrethu 2023 i'w clirio o fewn 12 mis i'w cyflwyno i'r Tribiwnlys.

- Rhestru unrhyw apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) o fewn chwe mis i'w derbyn.
- Cyflawni canran uchel o restriadau tro cyntaf gan esgor ar ddatrys apelau.
- Cyflwyno rhesymau ysgrifenedig am benderfyniadau o fewn 28 diwrnod i ddiwedd gwrandawiad yr apêl.

**Trefniadaeth Effeithlon**

- Recriwtio un Clerc a hyd at ddau Swyddog Cymorth Tribiwnlys i sicrhau parhad gwasanaeth a pharatoi ar gyfer ailbrisio AAN 2026 ac ailbrisio'r Dreth Gyngor 2028.
- Parhau â datblygiad proffesiynol staff.
- Annog dysgu am arweinyddiaeth a rheoli.
- Cymryd pob cyfle i recriwtio mwy o aelodau lleyg i sicrhau cynllunio ar gyfer olyniaeth i baratoi am ailbrisio'r Dreth Gyngor 2028 a diwygio trethiant lleol arall.
- Cynyddu lefelau hyfforddiant i staff ac aelodau.
- Talu anfonebau o fewn amserlenni penodedig – talu anfonebau o fewn 10 diwrnod gwaith lle na cheir anghydfod.
- Sicrhau bod y system TG yn addas i'w diben.
- Parhau i ddatblygu'r gyfres o fideos hyfforddi aelodau i'w defnyddio ar borth yr aelodau.
- Parhau i ddatblygu cynnwys fideo ar gyfer gwefan a chyfryngau cymdeithasol TPC.
- Annog a pharhau ymgysylltu rhanddeiliaid â Llywodraeth Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, IRRV a chyrff proffesiynol eraill, a phob rhanddeiliad arall.
- Cyfrannu at drafod a chydweithio ag Uned Bolisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â mentrau diwygio tribiwnlys ehangach a'u heffaith ar ddarpariaeth a pharhad gwasanaethau.

**Gwerth am Arian**

- Monitro effeithlonrwydd yn ôl cost fesul apêl.
- Monitro absenoldeb staff.
- Cwblhau'r trefniadau adnewyddu prydles ar gyfer llety'r swyddfa yng Nghasnewydd [daeth y prydles cyfredol i ben ym mis Hydref 2024].
- Annog a monitro gweini hysbysiadau yn electronig.

**Gwella ac arloesi'r system apelio**

- Archwilio anghenion staffio TG.
- Sicrhau gwella a datblygu TG trwy:
    - Gweithredu porth er mwyn i bob ffrwd apelio gael ei chyflwyno'n ddigidol.
    - Cyflwyno iPads ar gyfer Aelodau'r Tribiwnlys.
    - Ail-lansio gwefan TPC.

Trwy ganolbwyntio ar yr amcanion a’r nodau hyn, bydd Tribiwnlys Prisio Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, hygyrch, ac effeithlon i ddinasyddion a busnesau Cymru.

| Mesur perfformiad | Targed 2024/25 | Canlyniad 2024/25 | Targed ar gyfer 2025/26 | Rheswm am unrhyw newid targed / neu fanylion/gwybodaeth bellach |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfiawnder i Bobl Cymru** | | | | |
| Rhestru unrhyw apêl rhestr ardrethu 2023 o fewn chwe mis i'w derbyn | Newydd 2024 | 100% | 95% | Bellach, mae apelau'n cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i TPC ac mae angen iddo sicrhau yr ymdrinnir â nhw mewn dull amserol. |
| Apelau AAN yn erbyn Rhestr Ardrethu 2023 i'w clirio o fewn 12 mis i'w cyflwyno i'r Tribiwnlys. | Newydd 2024 | 100% | 95% | |
| Rhestru unrhyw apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) o fewn chwe mis i'w derbyn | Newydd 2024 | 73% | 95% | Yn y flwyddyn aeth heibio, cafwyd **691 o restriadau tro cyntaf** ar gyfer apelau Treth Gyngor. O'r rhain, rhestrwyd **503 (73%)** o fewn yr amserlen darged o **chwe mis** i'w derbyn.<br><br>Digwyddodd y perfformiad hwn yn ystod cyfnod o her weithredol:<br><br>• **Dyblu'r apelau a gyflwynwyd** o'u cymharu â'r niferoedd arferol.<br>• **Hanerwyd y capasiti rhestru** i gefnogi rhoi system TG newydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) ar waith.<br><br>Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, cwrddodd mwyafrif o'r apelau â'r targed rhestru chwe mis o hyd, gan |

| Mesur perfformiad | Targed 2024/25 | Canlyniad 2024/25 | Targed ar gyfer 2025/26 | Rheswm am unrhyw newid targed / neu fanylion/gwybodaeth bellach |
|---|---|---|---|---|
| | | | | adlewyrchu ymdrech sylweddol o dan amgylchiadau eithriadol. |
| Apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) i'w clirio o fewn 12 mis i'w cyflwyno i'r Tribiwnlys | 95% | 90.1% | 95% | Roedd 171 allan o 1736 o'r cliriadau yn ymwneud ag achosion oedd yn fwy na 12 mis oed; mewn gwirionedd, cofrestrwyd 9.9% o'r achosion hynny a gliriwyd fel apelau am dros 12 mis cyn iddynt gael eu datrys. Cafwyd cynnydd annisgwyl yn nifer yr apelau prisio Treth Gyngor a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn hon a gofynnwyd i TPC leihau'r rhestriadau er mwyn cynorthwyo'r VOA tra oedd ei system TG yn cael ei diweddaru. Dyma'r rheswm pennaf am beidio â chwrdd â'r KPI. |
| Cyflwyno rhesymau ysgrifenedig am benderfyniad o fewn 28 diwrnod i ddiwedd gwrandawiad yr apêl. | 95% | 96.4% | 95% | Cyhoeddwyd 19 allan o 525 penderfyniad (3.6%) y tu allan i'r targed 28 diwrnod. |
| Ceisiadau am adolygu penderfyniad AAN fel canran o achosion AAN a benderfynwyd | <0.50% | 0% | <0.50% | |
| Ceisiadau am adolygu penderfyniad PDG fel canran o achosion PDG a benderfynwyd | <2.0% | 1.9% | <2.0% | 4 cais o 216 o benderfyniadau. |
| Ceisiadau am adolygu penderfyniad ADG fel canran o achosion ADG a benderfynwyd | <5.0% | 9.6% | <5.0% | 7 cais o 73 o benderfyniadau. |
| Canran o restriadau tro 1af sy'n esgor ar ddatrys apelau. | Newydd 2024 | 88.5% | 75% | 1309 allan o gyfanswm o 1479 o restriadau tro 1af yn esgor ar glirio'r apêl. |
| Penderfyniadau sy'n cael eu cyfeirio i'r uchaf lysoedd. | <0.50% | 0.2% | <0.5% | 1 atgyfeiriad o 525 o benderfyniadau. |
| Penderfyniadau sy'n amodol ar gŵyn parti | <1.0% | 0.4% | <1.0% | 2 gŵyn o 525 o benderfyniadau. |

| Mesur perfformiad | Targed 2024/25 | Canlyniad 2024/25 | Targed ar gyfer 2025/26 | Rheswm am unrhyw newid targed / neu fanylion/gwybodaeth bellach |
|---|---|---|---|---|
| **Trefniadaeth Effeithlon** | | | | |
| Nifer o hawliadau a sail dda iddynt a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y Tribiwnlys | sero | sero | sero | |
| Nifer o faterion cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg a sail dda iddynt a wnaed yn erbyn y Tribiwnlys | sero | sero | sero | |
| **Gwerth am Arian** | | | | |
| Y ffigur cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr am absenoldeb salwch i beidio â bod yn hwy na 5 diwrnod gwaith. | <5 diwrnod | 7.6 diwrnod | <5 diwrnod | Mae'r ffigur wedi'i ystumio gan salwch staff tymor hir. Yn anad dim, nid oedd absenoldeb salwch gan hanner yr aelodau staff FTE. |
| Talu anfonebau o fewn amserlen benodedig. | Newydd 2024 | 99% | 90% | Oni bai bod rhyw anghydfod am y swm a anfonebir. |
| Nifer y dyddiau hyfforddi a ddarperir i holl staff TPC. | Newydd 2024 | 32 diwrnod | 6 | |
| Nifer y dyddiau hyfforddi a ddarperir i'r aelodaeth. | Newydd 2024 | 5 diwrnod | 2 | |
| Canran hysbysiadau'r tribiwnlys a weinir yn electronig. | Newydd 2024 | 75.1% | 80% | Yn unol ag ymgyrch TPC am brosesau di-bapur, yr un pryd â sicrhau bod y dinasyddion hynny heb fynediad at wasanaethau electronig heb fod dan anfantais. |
| Canran yr apelau Rhestr Ardrethu 2023 sy'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio porth ar-lein TPC. | Newydd 2024 | 0% | 90% | Daeth yr unig apêl a dderbyniwyd ychydig cyn dyddiad argaeledd porth electronig TPC. |

**TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU**

**Cwblhawyd gan a dyddiad: Carolyn Dawson – Ebrill 2025**

| Adnabod ac Asesu Risg | | | | | | | | | Agosrwydd (6) | Gweithredu arfaethedig i reoli'r risg | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **(1) Cyf** | **(2) Disgrifiad o'r Risg** | **(3) Risg Gynhenid** | | | (4) **Mesurau rheoli risgiau [Dylid cynnwys a yw'r gweithredu yn golygu Goddef, Trosglwyddo, Trin neu Terfynu]** | **(5) Risg Weddilliol** | | | | **(7) Gweithredu pellach ar y gweill i liniaru'r risg** | **(8) Amser-len** | **(9) Dyddiad adolygu** | **(10) Perchennog** |
| | | **E** | **T** | **S** | | **E** | **T** | **S** | | | | | |
| V1 | Os nad ydym yn adolygu ac yn rheoli ein gweithrediadau ariannol, yna mae risg y bydd TPC yn gorwario ei gyllideb. | 4 | 3 | 12 | Trin – Monitro gwariant misol. Derbyn rhagolygon rheolaidd gan y Swyddog Cyllid. PSG i roi rhagolygon chwarterol i LlC a rhagolygon misol yn ystod y chwarter olaf. | 4 | 1 | 4 | | Monitro'n gyson | Parhaus | Parhaus | PSG |
| V2 | Mae diwygio'r Tribiwnlys yn debygol o esgor ar TPC yn troi yn Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn ystod 2028. Gall yr ansicrwydd yn sgil hynny, i'r staff a'r aelodau, arwain at golli personél. | 5 | 5 | 25 | Trin – Sicrhau bod staff ac aelodau yn cael eu diweddaru gyda gwybodaeth gyfredol ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig a bod prosiect Diwygio'r Tribiwnlys yn ymwybodol o effeithiau posibl wrth i'r rhaglen ddatblygu. Bydd angen i reolwyr geisio lliniaru pryderon trwy fod yn agored ac yn rhagweithiol gydag aelodau a staff. Bydd angen | 4 | 4 | 16 | | Monitro'n gyson | Parhaus | Parhaus | Tîm Rheoli / PSG |

| Adnabod ac Asesu Risg | | | | | | | | | Agosrwydd (6) | Gweithredu arfaethedig i reoli'r risg | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **(1) Cyf** | **(2) Disgrifiad o'r Risg** | **(3) Risg Gynhenid** | | | (4) **Mesurau rheoli risgiau [Dylid cynnwys a yw'r gweithredu yn golygu Goddef, Trosglwyddo, Trin neu Terfynu]** | **(5) Risg Weddilliol** | | | | **(7) Gweithredu pellach ar y gweill i liniaru'r risg** | **(8) Amser-len** | **(9) Dyddiad adolygu** | **(10) Perchennog** |
| | | **E** | **T** | **S** | | **E** | **T** | **S** | | | | | |
| | | | | | recriwtio pellach os bydd unrhyw golli staff yn parhau. | | | | | | | | |
| V3 | Os bydd aelodau staff allweddol yn gadael y Gwasanaeth, yna ni fydd digon o staff medrus i gynnal gwaith TPC. Mae'r risg hon yn arbennig o ddifrifol oherwydd proffil oedran staff TPC a'r symud posibl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru arfaethedig (Gw. V2 a V4). | 5 | 5 | 25 | Trin – Hyfforddiant staff, gwerthuso cyson, dirprwyo dyletswyddau i annog y staff i ymgymryd â rolau mwy diddorol ac annog datblygiad personol. | 4 | 3 | 12 | | Rheolwyr i fonitro boddhad staff yn eu swyddi a briffio'r PSG ar unrhyw broblemau staffio a chyfleoedd posibl ar gyfer datblygu staff. | Parhaus | Parhaus | Tîm Rheoli / PSG |
| V4 | Oedran staff TPC ar gyfartaledd yw tua 49 ac mae risg y gall y rhai dros 55 oed ddewis ymddeol yn gynnar. | 5 | 5 | 25 | Trin – Er bod TPC wedi recriwtio staff ifancach yn ddiweddar, dim ond o ychydig y llwyddwyd i leihau'r oedran ar gyfartaledd. | 5 | 3 | 15 | | Mae angen cynllunio ar gyfer olyniaeth a hyfforddi staff presennol. Bydd angen recriwtio o'r tu allan i'r corff i lenwi rolau hanfodol lle bo prinder sgiliau tu mewn iddo. | Parhaus | Parhaus | Tîm Rheoli / PSG |

| Adnabod ac Asesu Risg | | | | | | | | | Agosrwydd (6) | Gweithredu arfaethedig i reoli'r risg | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **(1) Cyf** | **(2) Disgrifiad o'r Risg** | **(3) Risg Gynhenid** | | | (4) **Mesurau rheoli risgiau [Dylid cynnwys a yw'r gweithredu yn golygu Goddef, Trosglwyddo, Trin neu Terfynu]** | **(5) Risg Weddilliol** | | | | **(7) Gweithredu pellach ar y gweill i liniaru'r risg** | **(8) Amser-len** | **(9) Dyddiad adolygu** | **(10) Perchennog** |
| | | **E** | **T** | **S** | | **E** | **T** | **S** | | | | | |
| V5 | Er gwaethaf ymdrechion i recriwtio aelodau newydd, mae aelodaeth TPC o dan y nifer sy'n ddymunol ac mae ei phroffil yn heneiddio. Nid yw'r niferoedd cyfredol yn ddigonol er mwyn gwasanaethu amserlennu mwy o wrandawiadau TP. | 5 | 4 | 20 | Trin – Dal ati gyda'r ymgyrchoedd recriwtio parhaus. Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau eraill i ddenu aelodaeth fwy ifanc ac amrywiol. | 5 | 3 | 15 | | Ceisio hybu proffil TPC trwy fynychu digwyddiadau cenedlaethol ar draws Cymru a chodi diddordeb mewn dod yn aelod. | | | Tîm Rheoli / PSG |
| V6 | Os bydd TPC yn methu â chyflawni ei swyddogaethau statudol, yna mae risg y bydd yn derbyn cyhoeddusrwydd andwyol. | 4 | 3 | 12 | Trin – Sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o swyddogaethau statudol y Tribiwnlys ac y glynir wrth ddogfennau polisi a chyfarwyddiadau bwrdd gwaith. | 4 | 2 | 8 | | Sicrhau bod polisïau digonol ar gael a'u bod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn aml. | Parhaus | Parhaus | Tîm Rheoli / PSG |
| V7 | Os bydd digwyddiad mawr (colli pŵer neu gyfarpar yn methu) yna mae risg o golli seilwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn gyfan gwbl. | 5 | 4 | 20 | Trin – Cedwir copi wrth gefn o'r data yn rheolaidd, yn lleol ac yn fyd-eang, fel bod modd adfer y gronfa ddata gyfan. Mae'r gronfa ddata ar y cwmwl a gellir ei chyrchu trwy unrhyw gyswllt rhyngrwyd os bydd | 4 | 1 | 4 | | Adolygu gweithdrefnau cadw copïau wrth gefn i sicrhau eu bod yn gadarn. | Parhaus | Parhaus | Tîm Rheoli / PSG |

| Adnabod ac Asesu Risg | | | | | | | | | Agosrwydd (6) | Gweithredu arfaethedig i reoli'r risg | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **(1) Cyf** | **(2) Disgrifiad o'r Risg** | **(3) Risg Gynhenid** | | | (4) **Mesurau rheoli risgiau [Dylid cynnwys a yw'r gweithredu yn golygu Goddef, Trosglwyddo, Trin neu Terfynu]** | **(5) Risg Weddilliol** | | | | **(7) Gweithredu pellach ar y gweill i liniaru'r risg** | **(8) Amser-len** | **(9) Dyddiad adolygu** | **(10) Perchennog** |
| | | **E** | **T** | **S** | | **E** | **T** | **S** | | | | | |
| | | | | | cysylltiadau band eang y brif swyddfa yn methu. | | | | | | | | |
| V8 | Datblygwyd yr holl wasanaethau a chymorth TG yn fewnol. Byddai colli ein datblygwr a phersonél allweddol ar gontract yn arwain at beidio â datblygu ymhellach a gallai olygu y gallai'r system beidio â gweithredu gan amharu'n enfawr ar y gwasanaeth hwn i gyd. | 5 | 4 | 20 | Trin – Cyflogwyd swyddog cymorth TG a ddylai helpu i liniaru'r risg erbyn hyn. | 3 | 2 | 6 | | Sicrhau bod y Tîm TG yn hyfforddi'r swyddog cymorth TG newydd er mwyn sicrhau y gall cyfrifoldeb am gymorth TG gael ei rannu. | Parhaus | Parhaus | Tîm Rheoli / PSG |
| V9 | Os nad yw data yn cael ei drin yn ddiogel, yna bydd risg o gyhoeddusrwydd andwyol a'r posibilrwydd o golli gwybodaeth sensitif. | 4 | 3 | 12 | Trin – Polisi diogelwch cyffredinol yn ei le, polisi cadw dogfennau a chyfarwyddiadau bwrdd gwaith yn ei le. Chwilio am fodiwlau hyfforddi ar-lein addas i'w cwblhau gan bob aelod staff. | 4 | 2 | 8 | | Atgoffa staff yn rheolaidd o'u cyfrifoldebau personol yn unol â pholisïau TPC a threfnu hyfforddiant GDPR i bawb. | Parhaus | Parhaus | Tîm Rheoli / PSG |
| V11 | Os nad yw TPC yn gweithio gyda LIC ac Awdurdodau Bilio | 5 | 4 | 20 | Trin – Y Tîm Rheoli i weithio'n agos â LIC i sicrhau bod deddfwriaeth yn addas | 4 | 3 | 12 | | Adolygu cynnydd yn rheolaidd a sicrhau bod y | Parhaus | Parhaus | Tîm Rheoli / PSG |

| Adnabod ac Asesu Risg | | | | | | | | | Agosrwydd (6) | Gweithredu arfaethedig i reoli'r risg | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **(1) Cyf** | **(2) Disgrifiad o'r Risg** | **(3) Risg Gynhenid** | | | (4) **Mesurau rheoli risgiau [Dylid cynnwys a yw'r gweithredu yn golygu Goddef, Trosglwyddo, Trin neu Terfynu]** | **(5) Risg Weddilliol** | | | | **(7) Gweithredu pellach ar y gweill i liniaru'r risg** | **(8) Amser-len** | **(9) Dyddiad adolygu** | **(10) Perchennog** |
| | | **E** | **T** | **S** | | **E** | **T** | **S** | | | | | |
| | Cymru i sicrhau bod deddfwriaeth newydd y Dreth Gyngor yn addas i'w diben, yna mae risg na chaiff apelau Treth Gyngor eu prosesu'n effeithlon a gall fod yn agored i herio cyfreithiol. | | | | i'w diben ac i fonitro datblygiadau i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno'n amserol. | | | | | ddeddfwriaeth yn cael ei diweddaru i gynnwys gofynion TPC. | | | |
| V12 | Mae'n ofynnol i TPC gadw swyddfa barhaol a daeth y prydles presennol ar swyddfa Casnewydd, unig lety TPC, i ben ym mis Hydref 2024. | 5 | 2 | 10 | Trin – Cafwyd hyd i wasanaethau syrfëwr a chyfreithiwr i gwblhau trafodaethau gyda'r landlord presennol ar adnewyddu prydles Casnewydd. | 2 | 1 | 1 | | Adolygu cynnydd camau olaf y prydles newydd yn rheolaidd. | Parhaus | Parhaus | Tîm Rheoli / PSG |

**Nodiadau:**

**Col (1) Rhif cyfeirnod.**

**Col (2) Disgrifiad o'r risg gan gynnwys achos a chanlyniad yn y fformat "Os" … "yna". Lle bo modd dylid cysylltu risgiau â chynlluniau busnes.**

**Col (3) Sgôr risg gynhenid – Cysylltiad sy'n codi o risg cyn unrhyw weithredu i'w rheoli.**

**Col (4) Dylid cynnwys mesurau sydd eisoes yn eu lle. Dim ond gweithredoedd sydd yn eu lle a all gael eu defnyddio wrth bennu'r sgôr weddilliol. Hefyd dylid dangos yr ateb ar gyfer pob risg naill ai - Goddef, Trosglwyddo, Trin neu Terfynu.**

**Col (5) Sgôr risg weddilliol – Asesu risg gyda mesurau rheoli ar waith.**

**Col (6) Agosrwydd – Dylid adlewyrchu amseriad posibl y risg yn ymddangos h.y a yw'r bygythiad / cyfle yn gryfach ar adeg benodol gan ddefnyddio'r raddfa: Du - Tymor byr 0-3 mis; Llwyd - Tymor canolig 4-12 mis; Glas - Tymor hir 13 mis+**

**Col (7) Cofnodi rheoli neu weithredu lliniarol wedi'u cynllunio ac ar y gweill i gynnal neu leihau'r risg i lefel dderbyniol.**

**Col (8) Amserlen y gweithredu a gynigir os yw'n hysbys.**

**Col (9) Dyddiad adolygu'r risg, yn chwarterol ar y lleiaf.**

**Col (10) Person sydd ag atebolrwydd am y risg.**

**E = Effaith** (Asesiad o ganlyniadau'r risg yn ymddangos, sgôr 1-5)

**T= Tebygolrwydd** (Asesiad o debygolrwydd risg yn ymddangos, sgôr 1-5)

**S= Sgôr Gyffredinol** (Effaith x Tebygolrwydd)

**Statws COG** Coch, Oren, Gwyrdd (Coch 15-25, Oren 4-14, Gwyrdd 1-3).

# CYNLLUN TREFNIADAETHOL

## 2024-2025

Cyngor Llywodraethol | Aelodaeth | Gweithwyr Cyflogedig

**Llywydd Cenedlaethol**
**CAROL COBERT**

**Cynrychiolydd Cenedlaethol**
**RHYS PRYTHERCH**

**Cynrychiolydd Cenedlaethol**
**DAVID EVANS**

**Cynrychiolydd Cenedlaethol**
**DAVID SUBACCHI**

**Aelodaeth**
**[26 x Cadeirydd 37 xAelod ]**

**Cyflogeion**
**[19 x Gweithiwr Cyflogedig]**